# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 MEDI, 2021

## Yn NEUADD BENTREF RHYDLEWIS, RHYDLEWIS am 7.30 p.m.

**Yn bresennol** Cyng. Emyr Jones (cadeirydd)
Cyng. Mark Davies
Cyng. Sharon Thomas
Cyng. Teifi Evans
Cyng. Owenna Davies
Cyng. Julie Davies

P.C.S.O. Anwen Davies (Llandysul)

**Ymddiheuriadau** Cyng. Llŷr Evans; Cyng. Maldwyn Lewis; Cyng. Roger Davies; Cyng. Ceri Jones.

**Clerc** Margaret Jones

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Llŷr Evans, Maldwyn Lewis, Roger Davies a Ceri Jones. | | |
| 1a. | | Roedd PCSO Anwen Davies yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod er mwyn cyflwyno ei hun fel y PCSO o Landysul sy'n gwasanaethu cymuned Troedyraur. Sicrhaodd bawb a oedd yn bresennol bod lefel y troseddu yn yr ardal yn isel, ond dylid adrodd unrhyw ofidiau neu bryderon iddi hi trwy ffonio 101. Gan ddibynnu ar ei llwyth gwaith a'i rota gwaith, mae hi'n fwy na bodlon mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol. Felly, penderfynwyd y dylai'r Clerc anfon copi o'r Agenda ymlaen at PCSO Anwen Davies bob mis. | **Clerc** | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | | |
| 3 | Cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Gorffennaf. | | |
| 4. | | **Materion yn Codi** – Archwiliad Allanol – atgoffwyd Cyng. Maldwyn Lewis i roi diweddariad i ni yn ystod y cyfarfod nesaf ynghylch penodi Mr. Gwyn Jones.<br>Yn ogystal, cydymdeimlwyd â theuluoedd yn yr ardal yr oeddent wedi colli aelodau teuluol a ffrindiau oherwydd Covid 19, ac roedd pawb yn cytuno ei bod yn braf gallu cynnal cyfarfod mewn neuadd bentref nawr, yn y gobaith y gall hyn barhau. | | |
| 5. | Cadarnhau'r Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Owenna Davies bod cofnodion mis Gorffennaf yn gywir, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Julie Davies. | | |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd | | | |

| | |
|---|---|
| Sir | Nid oedd adroddiad gan bod Cyng. Maldwyn Lewis wedi ymddiheuro na fyddai modd iddo fod yn bresennol. |
| 7. Penodi Cynghorydd newydd | Cafwyd un llythyr cais gan Mr. Robert Jones, Blaenwern, Croes-lan. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn cytuno ei fod yn ymgeisydd addas, felly bydd y Clerc yn cysylltu ag ef ac yn anfon y ffurflenni gwybodaeth i Gynghorwyr Newydd ymlaen iddo, gan roi gwybod dyddiad y cyfarfod nesaf iddo hefyd, a bydd yn anfon Agenda a chopi o'r Cofnodion ymlaen ato maes o law. **Clerc** |
| 8. Gohebiaeth | Anfonwyd rhestr o'r holl gyrsiau ymlaen i'r holl Gynghorwyr mewn neges e-bost.<br><br>Yn ogystal, cafwyd llythyr mewn neges e-bost gan Gyng. Owenna Davies yn nodi ei bwriad i ymddeol fel Cynghorydd gan ei bod wedi cael ei hethol yn Llywydd cangen Merched y Wawr Ceredigion. Diolchodd y Cadeirydd i Gyng. Owenna Davies am ei holl waith caled dros y 10 mlynedd ddiwethaf, a'i llongyfarch ar ei swydd newydd fel Llywydd, gan ddymuno'n dda iddi yn y dyfodol. Diolchodd Cyng. Owenna Davies i'w chyd Gynghorwyr ac roedd yn dymuno'n dda i'r gymuned yn y dyfodol.<br><br>Rhoddir hysbysiad yn yr holl flychau cymunedol yn hysbysu'r cyhoedd o'r sedd wag ar Gyngor Cymuned Troedyraur. **Clerc**<br><br>Diolchodd y Cynghorwyr i'r Clerc am anfon canllawiau/rheolau Covid ymlaen am neuaddau pentref Rhydlewis a Choed-y-bryn. Er bod y Clerc wedi cysylltu ag ysgrifennydd neuadd Ffostrasol hefyd er mwyn sicrhau'r canllawiau/rheolau ar gyfer neuadd Ffostrasol, hysbyswyd y Clerc nad oedd angen canllawiau ar hyn o bryd a bod uned ddiheintio yn y neuadd, y mae modd ei defnyddio. Bu'r Cynghorwyr yn trafod y mater, gan benderfynu nad ydynt yn fodlon cynnal cyfarfodydd yn Ffostrasol heb fod unrhyw ganllawiau ar gael. Cynigiodd Cyng. Teifi Evans ei fod yn bwysig iawn dilyn y rheoliadau a'r canllawiau Covid, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Sharon Thomas. Felly, gwelwyd cytundeb unfrydol ymhlith yr holl Gynghorwyr a oedd yn bresennol y dylid cynnal cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn neuaddau pentref Rhydlewis a Choed-y-bryn yn unol ag argymhellion Un Llais Cymru. Bydd y clerc yn anfon llythyr ymlaen at ysgrifennydd Neuadd Bentref Ffostrasol i'w hysbysu o'n penderfyniad. **Clerc** |
| 9. Cynllunio | **<u>A210668 – Llethr Mawr, Bwlch-y-groes.</u>**<br>Trafodwyd y cais am yr anecs ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau, ar yr amod y dilynir yr holl argymhellion. **Clerc**<br><br>**<u>A210723 – Penbeili Mawr, Coed-y-bryn.</u>**<br>Roedd y cais yn ymwneud ag addasu ysgubor ar gyfer Aelod o'r teulu sy'n anabl. Trafodwyd y mater ac roedd pawb yn cytuno bod angen hwn, ac unwaith eto, yn unol â'r argymhellion. Yr unig arsylwad oedd bod yr adeilad yn cynnwys asbestos, a bod yn rhaid dilyn y trefniadau gwaredu cywir. **Clerc** |

**A210728 – Bargoed, Bwlch-y-groes**.
Trafodwyd y cais uchod ac nid oedd llawer o wybodaeth ar gael ond unwaith eto, ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau ar yr amod y dilynir rheoliadau. **Clerc**

10. Ariannol

**Ymchwiliad Archwilio** – Roedd y Clerc wedi cael e-bost gan Deryck Evans erbyn hyn, yn cadarnhau eu bod yn aros i glywed gan y banc o hyd, ac y bydd yn ceisio delio â'r mater eto, gan roi unrhyw ddiweddariad i ni maes o law.

**Llofnodwyr NatWest** – Roedd y Clerc wedi ceisio mewngofnodi i wefan Nat West sawl gwaith ers y cyfarfod blaenorol er mwyn ychwanegu llofnodwyr newydd, ond nid oedd wedi llwyddo i ddod o hyd i'r dudalen gywir. Bydd Cyng. Mark Davies yn cynorthwyo Mags cyn y cyfarfod nesaf.

**Taliadau** CThEM - £42.60 (PAYE)
Ashmole & Co., - £78.00 (Cyflogres)
Llinos Jones - £293.75 (Cyfieithu)
Cyflog y Clerc - £169.80

Bydd Cynghorwyr Owenna Davies a Maldwyn Lewis yn llofnodi'r sieciau hyn.
Llofnododd Cyng. Owenna Davies y sieciau perthnasol ar ddiwedd y cyfarfod a bydd y Clerc yn gwneud trefniadau gyda Chyng. Maldwyn Lewis er mwyn cael yr ail lofnod.

**Cynllunio'r Gyllideb** – Diffibriliwr ar gyfer Bwlch-y-groes a Chlwb Pêl-droed Ffostrasol.

Glanhawr ar gyfer llochesau bws, gan gofio mai dim ond rhywun i lanhau llochesau bws wedi'u hadeiladu o friciau solet y mae eu hangen, nid y rhai Persbecs mwy newydd.

Cynnal a chadw meinciau pentrefi a chael rhai newydd o bosibl.

11. Materion Ardal

**Casglu sbwriel**. Mae'n ymddangos bod problem ym mhob ardal ar hyn o bryd. Nododd Cyng Julie Davies ei bod hi wedi cael ateb gan Ben Lake AS a'i fod yn ymwybodol o'r broblem ar draws Ceredigion. Ni chafwyd unrhyw ymateb nac esboniad gan Gyngor Sir Ceredigion.

**Ffostrasol** – bydd siop y pentref yn ailagor yn y dyfodol agos. Soniodd y Clerc bod y gwydr ar du blaen yr hysbysfwrdd yn Ffostrasol wedi torri, a bod glaw yn dinistrio'r hysbysiadau. Cynigiodd Cyng. Mark Davies ei drwsio.

**Coed-y-bryn** – trefnwyd Helfa Drysor ar droed gan neuadd y pentref ac mae hi'n braf gweld rhai gweithgareddau yn cael eu trefnu yn y pentref wrth i gyfyngiadau Covid gael eu llacio.

**Rhydlewis** – roedd damwain arall wedi digwydd, lle'r oedd Tractor a threlar silwair wedi taro wal y tŷ ger y bont. Ni anafwyd unrhyw un ond

| | | |
|---|---|---|
| | | roedd plant wedi bod yn eistedd ger y lleoliad ychydig funudau cyn hynny. |
| 12. | Cyfyngiadau Cyflymder | Nid oedd y Clerc wedi cael ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion ers iddi anfon llythyr ymlaen ynghylch pryderon am oryrru mewn pentrefi amrywiol yn y gymuned. Anfonir y llythyr eto, gan nodi siom y Cynghorwyr na chafwyd unrhyw ymateb i'r llythyr cyntaf. |
| 13. | Cyfarfod Nesaf. | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 5 HYDREF am 7.30 p.m. yn Neuadd Bentref Coed-y-bryn os bydd y sefyllfa o ran Covid yn caniatáu. Os bydd y sefyllfa yn newid, trefnir cyfarfod dros Zoom ar yr un dyddiad a'r un amser.<br><br>Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 9.30 p.m. gan y Cadeirydd. |
| 14. | Eitemau ar gyfer y Cyfarfod Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Buddiannau<br>Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Cynghorydd Sir newydd<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid – Archwiliad<br>    Diweddariad am y Mandad/Llofnodwyr<br>    Taliadau<br>    Cynllunio'r gyllideb<br>Materion Ardal<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 15. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 5 HYDREF, 2021** am **7.30 p.m.**<br>yn Neuadd Bentref Coed-y-bryn. (Gallai'r lleoliad newid os bydd y sefyllfa o ran Covid yn newid). |